

Camfanteisio Troseddol ar Blant a Phobl Ifanc

Mae'r term "llynellau cyffuriau" yn dod yn fwyfwy adnabyddus ac yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i ddisgrifio sefyllfaoedd lle gall pobl ifanc gael eu masnachu at ddibenion camfanteisio troseddol. Yr hyn sy'n llai adnabyddus yw'r profiadau mae person ifanc yn eu hwynebu a'r potensial iddo gael ei niweidio trwy wahanol fathau o gam-drin a chamfanteisio o ganlyniad.

Fel mathau eraill o gam-drin a chamfanteisio, mae camfanteisio llynellau cyffuriau:

- yn gallu effeithio ar unrhyw blentyn neu berson ifanc (gwryw neu fenyw) iau na 18 oed;
- yn gallu effeithio ar unrhyw oedolyn agored i niwed hŷn na 18 oed;
- yn gallu bod yn gamfanteisio, hyd yn oed os yw'n ymddangos fod y gweithgarwch yn gydsyniol;
- yn gallu golygu dulliau o sicrhau ufudd-dod sy'n seiliedig ar rym a/neu hudo ac yn aml yn mynd ochr yn ochr â thrais neu fygythiadau trais;
- yn gallu cael ei gyflawni gan unigolion neu grwpiau, gwrywod neu fenywod, a phobl ifanc neu oedolion; yn nodweddiadol ohono mae rhyw fath o anghydbwysedd pŵer sy'n ffafrio'r sawl sy'n camfanteisio.

Arwyddion i chwilio amdanynt:

- Mynd ar goll o'r ysgol neu'r cartref yn rheolaidd a / neu gael ei ganfod y tu allan i'r ardal yn rheolaidd;
- Bod ag arian, dillad neu ffonau symudol heb esboniad am hynny
- Cael nifer ormodol o negeseuon testun / galwadau ffôn
- Perthnasoedd ag unigolion neu grwpiau hŷn / sy'n ei reoli
- Gadael y cartref / gofal heb esboniad
- Amheuaeth o ymosodiad corfforol / anafiadau heb esboniad
- Pryderon gan y rhieni
- Cario arfau
- Dirywiad arwyddocaol mewn canlyniadau / perfformiad yn yr ysgol
- Ymwneud â gang(iau) neu ynysu oddi wrth gyfoedion neu rwydweithiau cymdeithasol
- Hunan-niwed neu newidiadau arwyddocaol mewn lles emosiynol

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu masnachu, y camfanteisir arnynt neu sy'n cael eu gorfodi i gyflawni troseddau yn ddiodefwr mae arnynt angen eu diogelu a'u cynorthwyo. Rhowch wybod i'ch arweinydd diogelu.

Isod mae'r dolenni i wefannau'r Bwrdd Diogelu ar gyfer plant ac oedolion:

<http://www.sewsc.org.uk>

<http://www.gwasb.org.uk>